

Gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig - clirio'r band 700 MHz

Cefnogaeth i berchnogion offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig

Datganiad ac ymgynghoriad:

Dyddiad Cyhoeddi: 23 Awst 2018

Dyddiad Olaf ar gyfer derbyn Ymatebion: 4 Hydref 2018

Gair am y ddogfen hon

Ym mis Hydref 2016 roedden ni wedi cyhoeddi ein penderfyniad ynglŷn â rheoli sbectrwm, sef i weithio tuag at gyflymu'r rhaglen i glirio'r band 700 MHz a rhyddhau'r sbectrwm i'w ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau symudol ym mis Mai 2020 yn hytrach nag ym mis Medi 2021, sef 18 mis yn gynharach na'r disgwyl. O ganlyniad, rydyn ni wedi rhoi hysbysiad i ddefnyddwyr gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig (PMSE) na fyddant yn cael mynediad at sbectrwm yn y band 700 MHz o 1 Mai 2020 ymlaen.

Mae'r Llywodraeth wedi penderfynu ariannu cynllun grantiau i gefnogi perchnogion offer PMSE sy'n gorfod gadael y band 700 MHz yn gynharach na'r disgwyl. Rydyn ni wedi cytuno â'r Llywodraeth i ddylunio a rhedeg cynllun grantiau i ddsbarthu'r arian.

Mae'r ddogfen hon yn nodi ein casgliadau ar y meini prawf cymhwysio i'w bodloni gan hawlwr a'r egwyddorion sy'n sail i'r cerdyn cyfraddau. Mae hefyd yn gofyn barn rhanddeiliaid ynghylch ein dull ar gyfer ariannu costau ychwanegol a wynebwr gan berchnogion offer PMSE drwy gymryd rhan yn y cynllun ariannu.

Cynnwys

Adran

1. Executive Summary

1

1. Crynodeb Gweithredol

- 1.1 Mae'r cyhoeddiad hwn yn cynnwys datganiad ac ymgynghoriad. Mae'r datganiad yn nodi ein penderfyniadau mewn cysylltiad â'r cynllun ariannu offer ar gyfer perchnogion offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig (PMSE) yr effeithir arnynt gan y gwaith o glirio'r band 700 MHz (694 i 790 MHz). Mae'n ystyried y 22 o ymatebion a gyflwynwyd fel rhan o'r ymgynghoriad a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2017 ('ymgynghoriad mis Ebrill').¹ Yr hyn sy'n cael ei geisio yn yr elfen ymgynghoriad ydy safbwyntiau rhanddeiliaid ar ein cynnig ar gyfer cyllid ychwanegol i helpu perchnogion offer dalu'r costau a wynebwr o ganlyniad i gymryd rhan yn y cynllun ariannu.

Cynllun grantiau i gefnogi perchnogion offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig

Cyd-destun

- 1.2 Ym mis Hydref 2016, fe gyhoeddwn ni ddatganiad ('datganiad 2016') yn nodi ein penderfyniad ar rai o brif agweddau rhaglen clirio'r band 700 MHz, gan gynnwys ein nod i gyflymu'r broses o ryddhau'r band 700 MHz a chwblhau hynny erbyn mis Mai 2020, 18 mis yn gynharach na'r cynllun gwreiddiol. Yn natganiad 2016, fe roesom hysbysiad i ddefnyddwyr PMSE na fydd ganddynt fynediad at y band 700 MHz o 1 Mai 2020 ymlaen, ac ni fyddwn yn awdurdodi ei ddefnydd ar gyfer gwasanaethau PMSE ar ôl y dyddiad hwnnw. Ym mis Hydref 2017, gwnaethom gadarnhau bod y rhaglen 700 MHz ar y trywydd cywir i gwrdd â'n dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r gwaith o glirio, sef Chwarter 2 2020.²
- 1.3 Fel rhan o'i chyllid ar gyfer y rhaglen i glirio'r band 700 MHz, mae'r Llywodraeth wedi cytuno i ariannu cynllun grantiau i gefnogi perchnogion offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig a fydd yn gorfod gadael y band 700 MHz yn gynharach na'r disgwyl. Bydd y cyllid yn cyfateb i'r amcangyfrif o werth gweddilliol yr offer PMSE sy'n gweithredu yn y band 700 MHz y mae angen ei newid pan fydd y gwaith clirio'n digwydd. Yn y ddogfen hon, rydym hefyd yn cynnig cynyddu'r taliadau grant o ganlyniad i'r costau bydd perchnogion offer cymwys yn eu hwynebu drwy gymryd rhan yn y cynllun ariannu. Ein cynnig ydy codi'r taliad mae hawlydd yn ei gael am offer cymwys o 5%.
- 1.4 O dan a1(5) o Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006 mae gan Ofcom bŵer i roi grantiau at ddibenion rheoli sbectrwem, yn amodol ar gael cydsyniad gan Drysorlys EM.³ O dan y pwerau hyn, byddwn yn gwneud taliadau grantiau i hawlwr cymwys yn unol â thelerau a meini prawf cymhwyso y cynllun.

¹ https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0021/100965/700mhz-band-pmse-funding.pdf

² https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0022/106933/700mhz-clearance-timescale-review.pdf?utm_source=updates&utm_medium=email&utm_campaign=700mhz-update

³ O dan adran 1(7) o Ddeddf 2006.

Cymhwysedd ar gyfer y cynllun

1.5 Yn seiliedig ar ein gwaith yn ystyried ymatebion rhanddeiliaid i'n hymgyngoriad mis Ebrill, rydym wedi penderfynu bod yn rhaid i hawlwr ac offer fodloni'r meini prawf cymhwyso isod. Wrth ystyried sylwadau rhanddeiliaid, rydym wedi penderfynu addasu rhai o'r meini prawf cymhwyso.

Meini prawf cymhwyso sydd heb newid

1.6 Mae'r meini prawf cymhwyso canlynol yn unol â'n cynigion yn ymgynghoriad mis Ebrill. Ar y cyfan, roedd rhanddeiliaid un ai'n cytuno â'r cynnig neu nid oeddent wedi darparu unrhyw ddadl gref i gefnogi'u hanghytundeb â'r meini prawf hyn. Dyma'r meini prawf hyn:

- Rhaid i berchnogion offer naill ai fod wedi dal trwydded yn y band 700 MHz rhwng 17 Hydref 2014 a 23 Awst 2018 neu mae'n rhaid iddynt allu dangos tystiolaeth mae modd ei dilysu bod eu busnes yn seiliedig ar logi offer PMSE, yn hytrach na'i ddefnyddio, ac felly nid oes angen trwydded arnynt.⁴
- Mae hawlwr ond yn gallu hawlio am offer sy'n berchen iddyn nhw.
- Rhaid i'r offer yr hawlir amdano fod yn gweithio.

Y meini prawf cymhwyso sydd wedi newid yn dilyn y broses ymgynghori

1.7 Fel y nodir uchod, rydym wedi addasu rhai o'r meini prawf cymhwyso a oedd yn cael eu cynnig yn ymgynghoriad mis Ebrill. Mae Tabl 1 yn darparu crynodeb o'r hyn a gafodd ei gynnig, y penderfyniad, a'r rhesymeg dros y newid.

Tabl 1: Crynodeb o'r newidiadau i'r meini prawf cymhwyso

Cynigion Ymgynghoriad mis Ebrill	Penderfyniad	Rhesymeg
Rhaid i'r offer yr hawlir amdano fod wedi cael ei brynu cyn 17 Hydref 2016, sef y dyddiad y rhoesom hysbysiad i ddefnyddwyr PMSE i glirio'r band 700 MHz	Rhaid i'r offer yr hawlir amdano fod wedi cael ei brynu cyn 23 Awst 2018	Dywedodd rhanddeiliaid y byddai angen iddynt brynu offer yn y band 700 MHz er mwyn parhau i ddarparu eu gwasanaethau. Fe ddywedon nhw na fyddent yn gallu ystyried unrhyw ddulliau eraill yn llawn nes y darperir yr holl wybodaeth am yr arian a'r sbectrwm sydd ar gael. Rydym yn ystyried bod cyhoeddi'r datganiad hwn yn golygu bod gan rhanddeiliaid yr holl

⁴Er nad ydym wedi newid y gofyniad bod yn rhaid i berchnogion offer fod wedi dal trwydded (neu rhaid iddynt allu dangos tystiolaeth mae modd ei dilysu bod eu busnes yn seiliedig ar logi offer PMSE), rydym wedi diwygio'r dyddiadau y byddai angen iddynt fod wedi dal trwydded rhyngddynt.

		wybodaeth berthnasol i wneud penderfyniadau prynu
Byddai angen i'r offer yr hawlir amdano gael mwy na 50% o'i ystod tiwnio yn y band 700MHz	Byddai angen i'r offer yr hawlir amdano gael rhywfaint yn unig o'i ystod tiwnio yn y band 700 MHz	Roedd rhanddeiliaid yn dweud mai perchennog yr offer ddylai bennu colled defnyddioldeb offer, nid trothwy ystod tiwnio
Offer ategol - roedd hwn y tu allan i gategori'r offer a oedd yn cael ei gynnig yn ymgynghoriad mis Ebrill	Bydd offer ategol yn gymwys, ar yr amod ei fod yn diwallu gofynion cymhwysedd priodol eraill y cynllun. Er enghraifft, rhaid i offer ategol gydag ystod tiwnio fel antena gael rhywfaint o leiaf o'i ystod tiwnio yn y band 700 MHz	Roedd rhanddeiliaid yn pwysleisio y dylai'r cyllid dalu ar gyfer offer sy'n ategol i drosglwyddyddion a derbynyddion gan fod y rhain yn hollbwysig i'r system sain drwyddi draw

- 1.8 Mae'r newidiadau i'r meini prawf cymhwyso a amlinellir yn Nhabl 1 yn golygu y bydd mwy o offer sy'n gweithredu yn y band 700 MHz yn gymwys ar gyfer cyllid.

Band gwarchod 700 MHz

- 1.9 Ers cyhoeddi ymgynghoriad mis Ebrill, rydym wedi cyhoeddi datganiad ar y defnydd sy'n parhau o'r band 694 MHz i 703 Mhz ar gyfer gwasanaethau PMSE. Yn eu hymatebion i ymgynghoriad mis Ebrill, roedd rhanddeiliaid yn dweud na ddylai'r band gwarchod fod yn ffactor wrth bennu cymhwysedd ar gyfer y cynllun ariannu.
- 1.10 Rydym wedi ystyried barn rhanddeiliaid ar yr ansicrwydd ynghylch defnyddioldeb y band gwarchod ar gyfer PMSE. Er y bydd y sbectrwm hwn ar gael ar gyfer PMSE ar ôl mis Mai 2020, rydym wedi penderfynu peidio â'i gynnwys wrth bennu cymhwysedd ar gyfer y cynllun ariannu, h.y. bydd ffin y band 700 MHz at ddibenion ariannu yn aros yn 694 Mhz, ac nid 703 Mhz.

Ystod tiwnio offer cymwys

- 1.11 Rydym wedi penderfynu mai dim ond offer sy'n tiwnio i'r band 700 MHz fydd yn gymwys ar gyfer cyllid (gan nodi ein penderfyniad ynghylch y band gwarchod a amlinellir uchod). Mae hyn yn golygu na fydd offer sy'n gweithredu yn y sbectrwm o dan 694 MHz yn unig yn gymwys. Roedd rhanddeiliaid yn dadlau y byddai newidiadau i'r amleddau trosglwyddo o dan 694 MHz a ddefnyddir ar gyfer darllediadau teledu yn golygu y byddai'n rhaid newid rhywfaint o'r offer sy'n gweithredu o dan yr amledd hwnnw.
- 1.12 Er ein bod yn nodi'r safbwyntiau hyn, mae'r sefyllfa o dan 694 MHz yn wahanol i'r sefyllfa yn y band 700 MHz. Mae defnydd PMSE o'r band yn ddarostyngedig i hawliau'r prif ddefnyddiwr (Teledu Daearol Digidol), a bydd defnyddwyr sy'n gweithredu'n gyfan gwbl o dan 694 MHz yn parhau i gael mynediad at y sbectrwm ar y sail defnyddiwr eilaidd hwnnw,

h.y. ar sail ryngddalennog ddaearyddol gyda Theledu Daearyl Digidol. Felly, nid ydym yn credu bod perchnogion offer PMSE yn colli mynediad at y sbectrum o dan 694 MHz, ac felly nid ydy diogelwch deiliadaeth PMSE yn y band wedi cael ei dorri.

Cyfran y gwerth newid i'w hariannu

- 1.13 Yn ymgynghoriad mis Ebrill, gwnaethom gynnig mai lefel isaf y cyllid fyddai 47% o'r amcangyfrif o gost newid, yn seiliedig ar oedran ased cyfartalog tybiedig o wyth mlynedd. Rydym yn cytuno â'r sylwadau a gyflwynwyd gan rhanddeiliaid, sef ein bod wedi rhoi amcan rhy uchel o oedran cyfartalog ased, ac felly byddwn yn defnyddio oedran cyfartalog ased diwygiedig o chwe blynedd ar sail offer yn cael ei gyflwyno i'r cynllun ym mis Mai 2020. Mae'r newid hwn yn golygu y bydd rhanddeiliaid yn cael o leiaf 60% o'r amcangyfrif o gost newid eu hoffer.
- 1.14 O ran offer a gyflwynir i'r cynllun cyn mis Mai 2020, byddwn yn addasu'r oedran ased yn briodol. Lle gall rhanddeiliaid ddarparu tystiolaeth mae modd ei dilysu bod eu hoffer yn iau na'r oedran cyfartalog sy'n cael ei dybio, byddwn yn defnyddio hwnnw fel yr oedran ased i gyfrifo lefel y cyllid.

Ymgynghoriad ar gostau ychwanegol

- 1.15 Yn eu hymatebion i ymgynghoriad mis Ebrill, fe dynnodd rhanddeiliaid sylw at y costau sy'n gysylltiedig â chymryd rhan yn y cynllun ariannu. Mae'r rhain yn ychwanegol at gostau newid yr offer, er enghraifft, costau gweinyddu a rheoli'r prosiect. Rydym yn cytuno y bydd cymryd rhan yn y cynllun ariannu yn rhoi baich ychwanegol ar ysgwyddau rhanddeiliaid.
- Felly, yn y ddogfen hon, rydym yn gofyn am farn rhanddeiliaid ar ddull arfaethedig o bennu lefel y cynnydd i daliadau grant y dylem ei gyflwyno i dalu'r costau hyn. Ein cynnig yw bod y taliad y bydd hawlydd yn ei dderbyn gan y cynllun ar gyfer offer cymwys yn cael ei gynyddu 5%. Cwestiwn ymgynghori A: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i adlewyrchu costau cymryd rhan yn y cynllun ariannu drwy ychwanegu 5% at y taliad sy'n cael ei wneud i hawlydd?